



SWYDD DDISGRIFIAD

**Rheolwr Technegol
TEAM NTW cynhyrchiad Wrecsam
Llawrydd, cyfnod penodol**

CEFNDIR Y PROSIECT

Mae NTW yn cydweithio â phobl a lleoedd i wneud theatr bwerus, ddewr wedi'i hysbrydoli gan brofiadau a straeon ein cenedl. Fel cwmni theatr Saesneg Cymru, rydym wedi bod yn dod â phobl ynghyd i ail-ddychmygu a gwthio ffiniau'r hyn y gallai ac y dylai theatr fod.

Trwy TEAM NTW rydym wedi torri tir newydd gan weithio'n gynhwysol gyda chymunedau a gwneuthurwyr theatr. Trwy gysylltu pobl a chreadigrwydd yn eu hardaloedd a'u tirweddau eu hunain, rydym yn ailfeddwl y ffordd y mae gwaith yn cael ei wneud wrth greu cyfleoedd a phrofiadau trawsnewidiol sy'n dyfnhau effaith a gwerth theatr.

Uchafbwynt dros bedair blynedd o TEAM NTW yn gweithio yn Wrecsam yw'r prosiect hwn. Wedi ei seilio o amgylch egwyddorion o gyd-greu, ein thema - a ddewiswyd gan bobl Wrecsam - yw digartrefedd/cartref. Mae ein dull o weithio yn golygu bod lleisiau TEAM a'n partneriaid cymunedol yn cael eu cyflwyno drwy gydol y broses.

Bydd y cynhyrchiad yn digwydd mewn sawl lleoliad ar draws Wrecsam. Rydym yn archwilio elfennau o theatr gemau yn ogystal â gweithio yn yr awyr agored ac mewn lleoliadau theatr anhraddodiadol.

DYDDIADAU'R CYTUNDEB

Ymarferion o 24 Hydref 2022

Wythnos y cynhyrchiad a'r perfformiadau 14 - 10 Tachwedd 2022

EIN HYMGEISYDD DELFRYDOL

Byddwch yn teimlo'n gyffrous o gael y cyfle i fod yn rhan o dîm sy'n gweithio i ddatblygu cynhyrchiad newydd. Byddwch yn gweithio'n dda mewn tîm, ond byddwch hefyd yn gallu gweithio'n dda ar eich pen eich hun gan arddangos menter a'r gallu i flaenoriaethu. Rydych yn gallu datrys problemau'n rhagorol, yn enwedig dan bwysau. Rydych wedi eich lleoli yng Nghymru, neu fe gawsoch eich geni ac/neu fe wnaethoch astudio yma. Credwn fod y swydd hon yn addas i rywun sy'n newydd i'r diwydiant neu newydd raddio yn y maes.

Sgiliau a phrofiad a ystyrir yn bwysig yn y swydd:

- Profiad o weithio ar gynhyrchiadau a phrosiectau sydd wedi eu llwyfannu ar draws nifer o leoliadau

- Profiad o wneud gwaith theatr mewn lleoliadau anhraddodiadol neu gynyrchiadau yn yr awyr agored.
- Gallu amlwg i greu a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda Chyfarwyddwr a thîm creadigol.
- Dealltwriaeth ymarferol o arferion lechyd a Diogelwch presennol.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol
- Diddordeb mewn creu propiau yn ogystal â chanfod.
- Profiad o arwain ar agweddau technegol o'r codi a thynnu i lawr, ochr yn ochr â Rheolwr y Cynhyrchiad
- Profiad o ddefnyddio cerddoriaeth fyw mewn cynyrchiadau

Gwerthoedd a ystyrir yn bwysig yn y swydd:

- Byddwch yn gweithio gyda phobl o ddiwylliannau amrywiol, gydag ieithoedd a chefnidiroedd gwahanol.
- Byddwch yn ystyried cynrychiolaeth ac amrywiaeth o fewn y theatr yn bwysig ac wedi ymrwymo i ddiwylliant gwrth-hiliol a gwrth-alluaeth.
- Byddwch yn bencampwr cynaladwyedd, yn gweithio mewn modd amgylcheddol gyfeillgar sydd o gymorth i NTW fodloni ein hymrwymiad i [Lyfr Gwyrdd y Theatr](#)

Rydym yn annog ceisiadau gan bobl o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a'r rhai sydd wedi profi hiliaeth a galluaeth

TELERAU AC AMODAU

Graddfa: £3000 a lwfans dyddiol ac ail-leoli a perthnasol.
 Telerau: Llawrydd, cytundeb cyfnod penodol seiliedig ar Gytundeb Theatr Ecwiti Cymorthdaledig Theatr y DU
 Costau: Telir costau teithio ac ail-leoli perthnasol yn ystod ymarferion, perfformiadau a theithio.
 Lleoliad: Wrecsam

Mae gan National Theatre Wales bolisi Cyfleoedd Cyfartal ac mae'n cydymffurfio â rheoliadau Asiantaeth Ffiniau'r DU. Pe baech yn cael eich penodi, byddai'n ofynnol ichi ddarparu tystiolaeth eich bod â hawl i weithio yn y DU.

SUT I WNEUD CAIS

Rydym yn annog ymgeiswyr i fynegi diddordeb yn y swydd ym mha bynnag ffordd y teimlwch fwyaf cyfforddus a hyderus. Gall fod yn fideo, neges sain neu e-bost. Pa bynnag ffurf a ddewiswch, dywedwch wrthym ba swydd yr hoffech gael eich hystyried ar ei chyfer a gadewch inni wybod am eich profiad a pham bod gennych ddiddordeb mewn gweithio gyda NTW.

Danfonwch fynegiadau o ddiddordeb erbyn 12pm Ddydd Iau 1 Medi at production@nationaltheatrewales.org.

Ein nod yw cynnal cyfweiliadau anffurfiol yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 12 Medi.